William Mathias

Ganwyd y cyfansoddwr adnabyddus William Mathias yn Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin, ar y 1af o Dachwedd, 1934. Roedd yn gerddor galluog yn ifanc iawn – dechreuodd ganu'r piano yn 3 oed, ac roedd yn cyfansoddi yn 5 oed. Astudiodd gerddoriaeth yn y brifysgol yn Aberystwyth, ac enillodd ysgoloriaeth agored i astudio cyfansoddi yn yr Academi Brenhinol Cerddoriaeth, Llundain.

Fe'i adnabyddir fel un o gerddorion gorau ei genhedlaeth, a daeth yn un o'r cyfansoddwyr Cymreig cyntaf i dderbyn canmoliaeth ryngwladol am ei waith. Perfformir ei gyfansoddiadau ar draws y byd i gyd, ac maent yn cynnwys sawl concerto, symffonïau, cantatau, gweithiau corawl, darnau ar gyfer pobl ifanc ac opera, The Servants, gyda libretto gan Iris Murdoch. Yn ogystal a chyfansoddi, chwaraeodd rôl hafodol yn hybu cerddoriaeth yng Nghymru gan bwysleisio safonau uchel, proffesiynol a sefydlu llawer o fframweithiau sydd bellach yn gymorth i berfformwyr a chyfansoddwyr Cymreig ifanc ddatblygu mewn diwylliant byrlymus a bywiog.

Daeth Gogledd Cymru yn gartref parhaol iddo yn 1970, a chyfansoddwyd y rhan fwyaf o'i weithfeydd ar ei aelwyd ym Mhorthaethwy. Bu'n Athro ac yn bennaeth yr Ysgol Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Cymru, Bangor rhwng 1970 a 1988, ac yn 1972 sefydlodd Wyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru yn Llanelwy, ac roedd yn gyfarwyddwr arni yn flynyddol hyd ei farwolaeth yn 1992.

Enwyd Gwasanaeth Ysgolion William Mathias (sef. 1995) ar ôl y cyfansoddwr neilltuol hwn fel adlewyrchiad o'i gysylltiad arbennig â Gogledd Cymru, a'i ddylanwad pell-gyrhaeddol mewn addysg gerddorol trwy'r ardal ac ymhellach